



Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

SeneddEconomi@senedd.cymru

9 Tachwedd 2022

Annwyl Bwyllgor,

Ymgynghoriad: Bil Amaethyddiaeth (Cymru)

Diolch yn fawr am y cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad uchod. Bydd ein sylwadau yn canolbwyntio ar oblygiadau'r Bil ar gyfer y Gymraeg ym maes amaeth. Gofynnwn am i'r Bil wneud y canlynol yn orfodol:

- gosod dangosyddion a thargedau penodol i'r Gymraeg, fydd yn plethu ag amcanion strategaeth *Cymraeg 2050*
- casglu data ynglŷn â'r Gymraeg er mwyn gallu dadansoddi sefyllfa'r iaith yn y sector amaethyddol
- cynnwys y Gymraeg yn y rhestr o ddibenion y caiff Gweinidogion Cymru bŵer i ddarparu cymorth ar eu cyfer.

Yn ôl ffigurau'r Cyfrifiad Cenedlaethol, mae 43% o weithwyr amaethyddol yn siarad Cymraeg, o gymharu â 19% o'r boblogaeth yn gyffredinol. Dyma'r sector cyflogaeth â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg. Mae busnesau amaethyddol yn cynnal llawer o gymunedau gwledig lle mae'r Gymraeg yn iaith naturiol bob dydd. Rydym yn falch o weld cydnabyddiaeth gan Lywodraeth Cymru o bwysigrwydd y Gymraeg yn y maes, yn yr amcanion rheoli tir yn gynaliadwy a gyhoeddwyd yn y Bil. Mae'r pedwerydd amcan yn datgan hyn yn glir: "cadw a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



mynediad y cyhoedd iddynt a'u hymgysylltiad â hwy, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd" (Rhan 1, Adran 1 (5)).

Nid yw'n glir, fodd bynnag, sut y gweithredir er mwyn cyrraedd y nod hwn yng nghydestun y Gymraeg, na sut y caiff unrhyw gynnydd ei fesur. Mae'r Bil yn gosod gofyniad ar Weinidogion Cymru i lunio datganiad sy'n cynnwys dangosyddion a thargedau ar gyfer cyflawni'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy (Rhan 1, Adran 4 (1)(a) a (b)). Bydd rhaid i'r datganiad gynnwys "(a) o leiaf un dangosydd neilltuol ar gyfer pob amcan rheoli tir yn gynaliadwy, a (b) o leiaf un targed neilltuol sy'n ymwneud ag o leiaf un dangosydd neilltuol ar gyfer pob amcan rheoli tir yn gynaliadwy" (Rhan 1, Adran 4 (2)). Rydym yn cytuno â'r bwriad o osod targedau. Er hynny, rydym yn pryderu nad yw'r gofyniad hwn yn ddigon uchelgeisiol i fynd i'r afael â holl wahanol agweddau'r pedwerydd amcan ac felly na fydd dangosyddion na thargedau penodol i'r Gymraeg. Sgil effaith posibl hynny fyddai diffyg uchelgais o safbwynt cyflawni amcan y Bil i gynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd.

Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw i "(a) unrhyw ddangosyddion cenedlaethol (fel y'u diwygir o dro i dro) a gyhoeddir o dan adran 10 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015" (Rhan 1, Adran 5 (2)). Mae'r dangosyddion cenedlaethol a gyhoeddwyd ar 14 Rhagfyr 2021 yn cynnwys "Canran y bobl sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau o Gymraeg" (36) a "Nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg" (37). Dylai dangosyddion tebyg gael eu mabwysiadu er mwyn asesu a yw'r Gymraeg yn cael ei chynnal mewn cymunedau amaethyddol, a'i defnydd yn cael ei hyrwyddo a'i hwyluso, wrth geisio cyflawni'r pedwerydd amcan. Dylid gosod targedau perthnasol, gan ystyried sut y gallai'r Llywodraeth gefnogi cymunedau amaethyddol i gyfrannu at gyrraedd targedau strategaeth *Cymraeg 2050*. Bwriad y strategaeth erbyn 2050 yw i nifer y siaradwyr Cymraeg gyrraedd un filiwn ac i ganran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, gynyddu o 10 y cant i 20 y cant. Nid oes sicrwydd y byddai amcanion mor fanwl â hyn yng nghydestun y Gymraeg yn rhan o ddatganiad Gweinidogion Cymru, na thargedau ar gyfer y Gymraeg. Heb y manylder angenrheidiol yn

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



y Bil, mae risg o golli ffocws ar gynaliadwyedd y Gymraeg yn y dyfodol, o ddibynnu ar ddisgresiwn Gweinidogion. Rhaid felly i'r Bil sicrhau y bydd dangosyddion a thargedau penodol ar gyfer cyflawni amcan y Bil i gynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd.

Mae'r Bil yn datgan y bydd rhaid i Weinidogion Cymru lunio adroddiadau yn asesu'r cynnydd a wnaed yng nghyd-destun yr amcanion rheoli tir yn gynaliadwy a'r dangosyddion a'r targedau yn natganiad y Gweinidogion (Rhan 1, Adran 6 (1)-(3)). Bydd amcanion manwl a thargedau clir o safbwynt y Gymraeg yn hollbwysig felly er mwyn mesur cynnydd mewn ffordd effeithiol. Er mwyn cyflawni'r gwaith hwn bydd angen casglu data am nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau amaethyddol a gwybodaeth am ddefnydd yr iaith yn y cymunedau hynny. Bydd hyn yn caniatáu i'r Llywodraeth fonitro tueddiadau cenedlaethol yng nghyd-destun y Gymraeg a dadansoddi sefyllfa'r iaith yn y sector ar sail dystiolaeth gyfredol, er mwyn dylanwadu ar bolisiau yn y dyfodol a mynd i'r afael ag unrhyw wendidau.

Cyfeiria Adran 8 y Bil at bŵer Gweinidogion Cymru i ddarparu cymorth mewn cysylltiad ag amaethyddiaeth a gweithgareddau ategol yng Nghymru. Rhestrir 11 o ddibenion posibl (Rhan 2, Adran 8 (2)). Rydym yn pryderu nad yw cynnal na hyrwyddo'r Gymraeg yn eu plith. Mae Undeb Amaethwyr Cymru hefyd wedi mynegi pryder am y ffaith nad yw'r Gymraeg wedi ei chynnwys yn benodol yn y rhestr dibenion. Codwyd cwestiwn am hyn yng nghyfarfod llawn y Senedd ar 27 Medi 2022 pan wnaeth y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, ddatganiad am y Bil. Nododd Samuel Kurtz AS nad oedd cyfeiriad at y Gymraeg o fewn yr 11 o ddibenion, a gofynnodd sut oedd y Llywodraeth yn bwriadu gwarchod a thyfu'r Gymraeg o fewn pwerau'r Bil. Atebodd y Gweinidog ei bod wedi bod yn gweithio gyda Phlaid Cymru ynghylch y Gymraeg ac y câi gwelliannau pellach eu cyflwyno yng Nghyfnod 1. Edrychwn ymlaen at weld y gwelliannau; rhaid sicrhau bryd hynny y caiff y Gymraeg ei chynnwys yn y rhestr dibenion. Mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu diben at y rhestr, yn ogystal â dileu diben, drwy reoliadau (Rhan 2, Adran 8 (4)(a) a (b)). Er mwyn adlewyrchu pwysigrwydd y Gymraeg yng nghyd-destun ein cymunedau amaethyddol, dylai'r Gymraeg fod yn y rhestr ar glawr y

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



Bil ei hun. Rydym hefyd o'r farn na ddylai fod modd dileu diben heb ymgynghori o flaen llaw.

Rydym yn gobeithio y bydd y sylwadau uchod o ddefnydd i chi yn eich ymgynghoriad. Diolch eto am y cyfle i gyfrannu ato.

Yr eiddoch yn gywir,

Gwenith Price
Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales
